CfER 02/06/2014
Papur i'w nodi

**Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**2013/14 Adroddiad Diweddaru Blynyddol ar weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru**

Swyddogion adrannol arweiniol ar gyfer y Cynllun Busnes


Enwau: Ifan Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Arloesedd Gofal Iechyd
Tom James, Rheolwr rhaglen Arloesedd Gofal Iechyd

Manylion cyswllt: thomas.james@cymru.gsi.gov.uk
02920 823799


Cyflwyniad

Mae Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn gynllun statudol o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n amlinellu sut bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid cymdeithasol wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Diffinnir 'partneriaid cymdeithasol' yng Nghynllun Busnes Gweinidogion Cymru fel 'sefydliadau sy'n cynrychioli busnes a chyflogwyr, undebau llafur, a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli'. Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio Cyngor Adnewyddu'r Economi, sy'n llywio'r gwaith hwn, a hefyd yn ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, sy'n cefnogi gweithgarwch ymgysylltu partneriaid cymdeithasol.

Mae'r ddogfen hon yn adolygu gwaith yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('yr Adran') o weithredu'r Cynllun Busnes yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd ymgysylltiad yr Adran â phartneriaid cymdeithasol a oedd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes, drwy natur a darpariaeth gweithgarwch iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, yn canolbwyntio'n wahanol o gymharu ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r Adran yn ymgysylltu'n rheolaidd a chynhyrchiol â phartneriaid iechyd eraill. Mae'r rhain yn grwpiau proffesiynol a chynrychioliadol sy'n canolbwyntio'n benodol ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ganddynt ddigon o adnoddau a phrofiad o weithio gyda'r llywodraeth ar ddeddfwriaeth, datblygiad polisi, ac ymgynghoriad.

Felly, mae'r adroddiad blynyddol hwn yn disgrifio ymgysylltiad â phartneriaid cymdeithasol y Cynllun Busnes, gyda rhwydwaith sefydledig partneriaid iechyd, yn ogystal â busnes a diwydiant yn fwy cyffredinol.

**Ymgysylltiad adrannol gyda grwpiau partner cymdeithasol penodol:**

**Cymdeithas Feddygol Prydain** (BMA) yw'r corff cynrychioladol ac undeb llafur ar gyfer meddygon yn genedlaethol ac yn lleol. Mae ganddi gangen yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1852, gyda 15 o aelodau a thîm ysgrifenyddol a materion cyhoeddus penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r BMA drwy amrywiaeth eang o gyfryngau ffurfiol ac anffurfiol. Yn ffurfiol, mae gan y BMA 6 chynrychiolydd ar Bwyllgor Meddygol Cymru, gyda phob un ohonynt yn cyfrannu barn a gwybodaeth o'u rhwydweithiau penodol eu

hunain. Yn fwy anffurfiol, mae isadrannau polisi penodol ar draws y sector Iechyd yn ymgysylltu yn eu meysydd eu hunain ag aelodau o bob un o wyth is-bwyllgor BMA Cymru sy'n cynrychioli'r mathau gwahanol o feddygon, o fyfyrwyr meddygol a staff, i arbenigwyr ac ymgyngoreion.

**Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol** (RCGP) yw'r corff aelodaeth proffesiynol a gwarcheidwad safonau ar gyfer meddygon teulu yn y DU, sy'n gweithio i hyrwyddo arbenigedd ym maes gofal iechyd sylfaenol. Mae gan y RCGP gangen yng Nghymru ac mae'n ymgysylltu â Byrddau Iechyd Lleol Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad. Mae cynrychiolaeth ffurfiol drwy Bwyllgor Meddygon Teulu Cymru (sy'n gysylltiedig â Phwyllgor Meddygol Cymru a'r BMA) a Grŵp Ymgynghori Arbenigol Cenedlaethol Meddygon Teulu (NSAG).

**Coleg Brenhinol y Bydwragedd** (RCM) yw'r gymdeithas broffesiynol ar gyfer bydwragedd yn y DU, yn ogystal â bod yn undeb llafur. Mae ganddi gangen yng Nghymru gyda Chyfarwyddwr ar gyfer Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio (CNO) yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Roedd yr RCM yn rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r Weledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth (2012) a gweithredu'r weledigaeth honno yn ystod 2013/14; datblygu canllawiau cenedlaethol ar fonitro ffoetws a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013; a'r ymagwedd i fwydo ar y fron yn GIG Cymru, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gwahoddir yr RCM i ddarparu tystiolaeth i gefnogi cyfarfodydd bwrdd perfformiad gwasanaethau mamolaeth 6 mis a ddechreuodd ym mis Ebrill 2013 ac yn darparu tystiolaeth i'r GIG ar ei gynlluniau ad-drefnu yn ystod 2013/14. Mae'r RCM, gyda Llywodraeth Cymru, wedi ariannu rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer Penaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth arfaethedig yn 2013/14. Bwriedir gwneud gwaith dilynol ar gyfer 2014/15.

**Coleg Brenhinol y Nyrsys** (RCN) yw'r brif gymdeithas broffesiynol ar gyfer nyrsys yn y DU yn ogystal â bod yn undeb llafur. Mae ganddi gangen yng Nghymru gyda Chyfarwyddwr ar gyfer Cymru. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Gweinidog a'r CNO yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae RCN Cymru yn darparu tystiolaeth i'r GIG ar ei gynlluniau ad-drefnu yn ystod 2013/14. Mae RCN Cymru yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r gweithlu a strategaeth OD ar gyfer y GIG yng Nghymru, 'Gweithio'n wahanol - gweithio gyda'n gilydd'. Cynhaliodd RCN Cymru ei hail ddathliad Nyrs y Flwyddyn blynyddol ym mis Tachwedd 2013, lle gwnaeth y Prif Swyddog Nyrsio gyflwyno gwobr a noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae **Fforwm Partneriaeth Cymru** (WPF) yn grŵp tridarn sy'n cynnwys corff cynrychioliadol o swyddogion Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr undebau llafur fel Unison, Unite a'r GMB. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn mynychu'r grŵp hwn yn flynyddol. Mae'r WPF yn trafod amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar staff a chleifion ac yn sicrhau bod aelodau'r WPF yn gweithio gyda'i gilydd i: ddylanwadu ar flaenoriaethau cenedlaethol a pholisi ar faterion iechyd yng Nghymru sicrhau bod egwyddorion y bartneriaeth yn cael eu harfer yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru; a hyrwyddo a hwyluso'r newidiadau ymddygiadol sydd ynghlwm â gweithio mewn partneriaeth.

Sefydlwyd **Tasglu Cyflog Strategol y GIG** (SPTF) ym mis Mai 2013 i drafod sut y gellir lliniaru pwysau costau sy'n codi o weithredu'r dyfarniad cyflog 2013/14 ar gyfer staff y GIG yng Nghymru. Mae aelodau'r Tasglu yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, cyflogwyr y GIG a chynrychiolwyr staff o'r RCN, RCM, UNISON, UNITE, CSP

(Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion), SoR (Cymdeithas y Radiograffwyr) a'r GMB.

Mae **Fforwm Gofal Cymru** yn cynrychioli 450+ o gartrefi gofal, cartrefi nyrsio a darparwyr annibynnol eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cadeirydd a swyddogion Fforwm Gofal Cymru yn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch swyddogion yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae Fforwm Gofal Cymru wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol. Mae Fforwm Gofal Cymru yn cynrychioli buddiannau darparwyr gofal cymdeithasol annibynnol yn y Fforwm Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a helpu i roi arweinyddiaeth gyfunol i wasanaethau cymdeithasol ar y lefel uchaf o ran gwneud penderfyniadau.

Mae ymgysylltiad strwythurol rheolaidd gyda grwpiau proffesiynol ac arbenigol drwy gyrff fel **Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru** a **Phwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru.** Mae'n cefnogi'r gwaith ymgysylltu â sefydliadau cynrychioliadol proffesiynol a busnes fel **Cymdeithas Ddeieteg Prydain, Undeb Llafur Cymdeithas Orthoptig Prydain ac Iwerddon, Fforwm Cynghori ar Therapi Galwedigaethol, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi** a **Chymdeithas y Ciropodyddion a'r Podiatryddion.** Cylch gwaith y pwyllgorau hyn yw darparu cyngor proffesiynol arbenigol i Weinidog Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru ar faterion perthnasol gan gynnwys: polisi gwasanaeth iechyd, materion cyflawni a gweithlu. Mae'r Pwyllgorau yn cyfarfod ag uwch swyddogion gwasanaeth sifil a swyddogion Llywodraeth Cymru yn rheolaidd. Enghreifftiau o adroddiadau polisi diweddar y mae'r cyrff wedi'u cyfrannu atynt yng Nghymru mae 'Cyfraniad Ffisiotherapi i ddarpariaeth gwasanaeth cymunedol' a 'Adroddiad cynnydd therapi galwedigaethol gofal cymdeithasol mewn cysylltiad â datblygu gwasanaethau integredig'.

Mae'r cyrff hefyd wedi briffio'n rhagweithiol ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill, er enghraifft cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r Bil Trawsblannu Dynol a Bil Gwasanaethau Cymdeithasol gyda'r bwriad iddynt gyfrannu at yr ymgynghoriad. Mae'r Pwyllgorau yn ymateb yn rheolaidd i ymgyngoreion iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a darparu cyfraniad i'r Ymchwiliad ar Ofal Preswyl i Bobl Hŷn. Mae gan Aelodau'r Pwyllgor lwybr i roi cyngor ar nifer o feysydd datblygu polisi, gan gynnwys y cynlluniau darparu fel Darparu Gofal Iechyd Lleol. Er enghraifft, mae'r Pwyllgor WTAC wedi rhoi cyngor i'r Grŵp Llywio Newyddenedigol yn arwain y gwaith o ddatblygu llwybr gofal newydd, ac wedi cyfrannu at y Grŵp Cynghori Anabledd Dysgu; Grŵp Sicrwydd Darparu Iechyd Meddwl Pobl Hŷn; Grŵp Sicrwydd Darpariaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc; Grŵp Cynghori Arbenigol Cenedlaethol i Bobl Hŷn yng Nghymru; Grŵp Rhyddid i Arwain - Rhyddid i Ofalu; Grŵp Gorchwyl a Gorffen Arbenigedd y Mesur Iechyd Meddwl a'r Grŵp Cynghori Addysg Uwch a Hyfforddiant.

**Cymdeithas Ddeintyddol Prydain** (BDA) yw'r gymdeithas broffesiynol a'r undeb llafur ar gyfer deintyddion yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gweithio'n rhannol neu'n llawn i bractis preifat. Mae gan y BDA gangen yng Nghymru gyda Chyfarwyddwr Cenedlaethol i Gymru. Mae'r Cyfarwyddwr yn cyfarfod â'r Prif Swyddog Deintyddol yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Ymgynghorir â BDA Cymru ynghylch newidiadau arfaethedig i bolisi e.e. datblygu Cynllun Iechyd y Geg Cenedlaethol i Gymru. Mae BDA Cymru yn cefnogi'r gwaith o beilota dulliau newydd i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru ac mae'n aelod o'r Grŵp Llywio peilot.

Y **Gymdeithas Fferyllol Frenhinol** (RPS) yw'r corff proffesiynol ar gyfer fferyllwyr a fferylliaeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Gweinidog yn cwrdd â'r RPS yn flynyddol i drafod a chael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion allweddol.

Mae'r **Cyngor Fferyllol Cyffredinol** (GPhC) yn gyfrifol am reoleiddio dros 70,000 o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a safleoedd fferylliaeth yn annibynnol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Cyfarwyddwr GPhC Cymru mewn cyswllt rheolaidd â'r Tîm Fferylliaeth a Phresgripsiynau, gydag ymgysylltiad rheolaidd diweddar dros (i) datblygu'r fframwaith arolygu newydd ar gyfer fferyllwyr cymunedol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban (ii) ail-gydbwyso deddfwriaeth meddyginiaeth a fferylliaeth a moderneiddio rhaglen gyrfaoedd ac addysg fferylliaeth.

Mae **Cymdeithas Brydeinig y Diwydiant Fferyllol** (ABPI) yn gyfrifol am gwmnïau fferyllol arloesol sy'n seiliedig ar waith ymchwil ac yn cyfrannu at ddatblygu meddyginiaeth sy'n arbed bywyd a gwella bywyd i gleifion. Mae aelodau ABPI yn cyflenwi 90 y cant o'r feddyginiaeth a ddefnyddir gan y GIG, ac ymchwilio a datblygu dros ddau draean o'r meddyginiaethau presennol. Mae'r Gweinidog a'r Prif Swyddog Fferyllol yn cyfarfod ag ABPI ar faterion megis y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Presgripsiynau a chael gafael ar feddyginiaethau newydd.

Mae **Fferylliaeth Gymunedol Cymru** (CPW) yn cynrychioli holl fferyllfeydd yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau'r GIG mewn cymunedau ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a'i hasiantaethau. Mae CPW wedi cyfrannu'n allweddol at ddatblygu'r prosiect peilot Dewis Fferyllfa, sy'n un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

**<u>Enghreifftiau o ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid</u>**

Cytunwyd, fel rhan o'r gwaith o **ddatblygu Fframwaith Canlyniad y GIG** ar gyfer y GIG, y byddem yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys cleifion a chlinigwyr i gefnogi methodoleg o gyd-gynhyrchu. Mae'r cyd-destun o gyd-gynhyrchu wedi cael ei hyrwyddo gan y Gweinidog ac uwch arweinwyr ac mae'n un o egwyddorion craidd datblygu a darparu polisi iechyd. Er enghraifft, bu ymgysylltu rhanddeiliaid, cyhoeddus a chlinigol strwythuredig ar gyfer datblygu Fframwaith Canlyniad y GIG o'r enw 'Dweud eich Dweud am Ofalu', sydd wedi cynnwys sefydliadau partner iechyd yn ogystal â chleifion a'r cyhoedd. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru gyda chynrychiolaeth gan randdeiliaid a wahoddwyd, ac yna digwyddiad i adrodd sylwadau yn ôl o bob digwyddiad. Mae cynrychiolwyr yn y digwyddiadau wedi'u gwahodd i fod yn rhan o grŵp cyfeirio electronig ar gyfer gwaith parhaus.

Fel rhan o'i dull ar gyfer **ad-drefnu'r GIG,** mae'r GIG wedi arwain dull ymgynghori trylwyr iawn gyda'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gweithwyr. Mae'r Adran wedi sefydlu gweithgorau cydweithiol ychwanegol i edrych ar themâu allweddol, fel cysylltiadau rhwng mynediad i wasanaethau ysbyty a darparu gwasanaethu cleifion a'r cyhoedd ym mhob ardal ad-drefnu, gan sicrhau ymgysylltu â chwmnïau bysiau, yn ogystal â'r gymdeithas drafnidiaeth gymunedol.

O'r dechrau, mae pobl hŷn wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.** Roedd barn dros 2,000 o bobl hŷn, a gasglwyd drwy holiaduron a grwpiau ffocws, yn sail ar gyfer datblygu'r ddogfen ymgynghori ar gyhoeddwyd ym mis Hydref 2012. Cyflwynodd dros 100 o unigolion a sefydliadau

ymatebion i'r ymgynghoriad. Rydym hefyd wedi gweithio gyda grwpiau rhanddeiliaid, yn enwedig y trydydd sector.

## Cydweithio adrannol gyda phartneriaid cymdeithasol

Mae **Cynllun Gweithredu Iechyd, Gwaith a Lles ar gyfer 2011-15** yn ceisio darparu sail ar gyfer cydweithio rhwng rhanddeiliaid allweddol i wella iechyd a lles yn y gwaith; i leihau effaith salwch yn y gwaith, ac i annog ymyrraeth gynnar i adsefydlu'r rhai sydd wedi bod yn sâl neu wedi anafu yn y gwaith. Mae **Cyngor Undeb Llafur Cymru, Busnes yn y Gymuned a'r Ffederasiwn o Fusnesau Bach** yn bartneriaid allweddol yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun. Cyflawnir camau gweithredu Llywodraeth Cymru drwy ei rhaglen Cymru Iach ar Waith (www.cymruiacharwaith.com) a ardystir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r TUC. Mae gan y rhaglen nifer o elfennau ac mae partneriaid eraill, gan gynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach, yn ymwneud â'r gwaith o'u cyflawni. Cefnogir dros 1,000 o gyflogwyr gan y rhaglen bob blwyddyn a 500+ o gyflogwyr, sy'n cynrychioli 25% o bobl sy'n gweithio yng Nghymru, yn ymwneud â'r rhaglenni dyfarnu. Fel rhan o'r gwaith Iechyd, Gwaith a Lles ehangach, yn enwedig ynghylch cyflawni cynlluniau peilot a gwasanaethau dan arweiniad Llywodraeth y DU, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr busnes yn ystod y cyfnod datblygu. Er enghraifft, ymgysylltir ac ymgynghorir â Phartneriaid Cymdeithasol Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, TUC Cymru a Busnes yn y Gymuned er mwyn gweithredu'r Gwasanaeth Iechyd a Gwaith, a weithredir ym mis Hydref 2014.

## Ymgysylltu adrannol gyda busnes a diwydiant

Er bod Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru wedi'i strwythuro drwy ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol, ysbryd y ddogfen yw ymgysylltu â busnes a diwydiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi cynyddu ei hymgysylltiad uniongyrchol yn sylweddol â busnesau, ac wedi parhau i weithio'n agos gyda swyddogion o'r Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn enwedig y timau Gwyddorau Byw ac Arloesedd.

**Mae'r adran yn gofyn am farn fusnesau, sefydliadau a phartneriaid cymdeithasol fel mater o drefn wrth ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd.** Er enghraifft, gofynnodd tîm bil Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 am farn Siambr Cymru, CBI Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach, Fforwm Busnes Preifat, NFU Cymru a Chymdeithas y Gyfraith, a chyfarfu â Chynghrair Twristiaeth Cymru i drafod y gwaith o gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru. Gwnaeth tîm papur gwyn a bil Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) ymgynghori â PCS, Unison, GMC a Wales TUC.

Caiff diwydiant ei gynrychioli'n gryf ar **Grŵp Diwydiant NISCHR AHSC** a wnaeth fframio cyd-destun **gwasanaeth porth Ymchwil Iechyd Cymru**, ac mae'n parhau i fonitro'r gwaith gweithredu. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi gweithio'n agos gyda diwydiant ar weithgarwch ymchwil, sy'n ymestyn y tu hwnt i dreialon clinigol strwythuredig i ymgysylltiad ar y cyd â diwydiant er mwyn cael gweithgareddau arloesol.

Mae enghreifftiau eraill o ymgysylltiad strwythurol â busnes yn cynnwys yr alwad am dystiolaeth a chyflwyniadau i'r **Bwrdd Arfer Gorau ac Arloesedd Iechyd a Lles,** ac yn enwedig ei ffrwd gwaith Busnes a Gofal Cymdeithasol y GIG, sydd wedi awdurdodi argymhellion polisi i Weinidogion Cymru ar ffyrdd o wella ymgysylltiad diwydiant ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Ymgysylltir ag uwch swyddogion mewn prosiectau ar draws sectorau fel **Prosiect Cyflenwid Gwybodaeth Gwyddorau Byw Cymru**, sydd â'r dasg o fapio'r sector gwyddorau byw a gofal iechyd yng Nghymru a llunio blaenoriaethau yn y dyfodol ar gyfer cefnogaeth a busnes gan Lywodraeth Cymru, ar draws is-sectorau academaidd, busnes a chlinigol.

**Mae cryn dipyn o ymgysylltu ad hoc gydag amrywiaeth eang o bartneriaid busnes a diwydiant** sy'n llywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni polisi. Er enghraifft, mae'n cynnwys ymweliadau safle (e.e. GE Healthcare, Quintiles, Microsoft, Biomet, WePredict, Penn Pharma, Magstim, Invacare) a chyfarfodydd (e.e. Roche, GSK, Pfizer, Johnson & Johnson, Cisco, Tunstall, Conduit, Northgate IS, ABPI, MediWales, One Nucleus, Time for Medicine, Qinetiq, Life Technologies, O2 Health). Yn ogystal, uwch swyddogion yn gweithio'n uniongyrchol gyda byrddau iechyd, prifysgolion a buddsoddwyr i ymgysylltu â busnesau sydd newydd gychwyn ac i gefnogi gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys buddsoddwyr (Finance Wales, Fusion IP, Welsh Life Sciences Fund), arloesedd cyfnod cynnar (VentureFest, Oxford Innovation, Fulcrum), a masnacheiddiwch y GIG (WIMAT Surgical raining Centre, Uned Fferylliaeth St Marys, Canolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau, Sefydliadau Gwyddorau Byw, PDR Product Design). Mae uwch swyddogion hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â sefydliadau cynrychiolwyr diwydiant fel Fferyllfa Gymunedol Cymru, Cymdeithas Diwydiannau Fferyllol Prydain a Chymdeithas Diwydiannau Gofal Iechyd Prydeinig.

## Codi ymwybyddiaeth o fewn yr Adran

Mae **Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol** yr adran wedi cael cyflwyniadau ar y Cynllun Busnes ac mae cyfarwyddiaethau wedi cyfrannu at yr adroddiad blynyddol cyntaf hwn. Mae hefyd mwy o ymwybyddiaeth o ymgysylltiad diwydiant cyffredinol a gwerth partneriaid ar draws sectorau, gan gynnwys, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu dull polisi newydd sy'n mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd a chyfoeth. Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd **Gweithgor Economi Iechyd** i gefnogi'r gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth pholisi a syniadau newydd yn y maes hwn. Gwnaeth y Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ymrwymiadau cyhoeddus i gefnogi ymgysylltiad parhaus â diwydiant yng **Ngwobrau Arloesedd MediWales** a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2013, a NISCHR yw prif noddwr y gwobrau hyn.

Mae **Grŵp Swyddogion Gwyddorau Byw ac Iechyd** yn cyfarfod yn fisol i rannu gwybodaeth ac alinio polisi ar draws llywodraeth. Caiff y grŵp hwn ei gadeirio gan uwch swyddog iechyd ond mae'n cynnwys cynrychiolaeth gref o adrannau eraill, gan gynnwys, yn enwedig, economi, gwyddoniaeth ac arloesedd.

## Gweithgarwch Adrannol yn y Dyfodol

Mae iechyd a gofal cymdeithasol yn sector cymharol aeddfed gyda digon o adnoddau a chymdeithasau proffesiynol cryf a sefydliadau cynrychioliadol sydd â digon o allu ac adnoddau i ymgysylltu â deddfwriaeth, datblygu polisi ac ymgynghori.

Gwnaeth y Gweinidog a swyddogion ymrwymo i fabwysiadu dull cyd-gynhyrchu at ddatblygu a chyflawni polisi iechyd, ac mae hyn, mewn rhai achosion, yn cael ei gefnogi gan bwyllgorau sefydlog sy'n dod â phartneriaid a swyddogion at ei gilydd, ac sydd â chysylltiad â'r Gweinidog. Mae'r adran hefyd yn sicrhau ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid fel rhan o ddatblygiad polisi.

Fel rhan o'r gwaith o fwydo i mewn i'r adolygiad o strwythurau ymgynghori'r Adran, mae grŵp newydd sy'n cynnwys ymgysylltiad diwydiant ochr yn ochr â chlinigwyr ac academyddion, wedi'i awgrymu i lenwi'r bwlch yn y strwythur cyfredol. O ystyried blaenoriaethau presennol y Cabinet i greu swyddi ac ysgogi twf economaidd, gallai'r grŵp hwn helpu i alluogi gwneud y gorau o werth economaidd o weithgarwch gofal iechyd yng Nghymru.

Mae holl gaffael y GIG ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn digwydd rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) ac mae 16% (£118m) o'r £721m o wariant nad yw'n gyflog yn cael ei gaffael yng Nghymru, Felly, mae'r adran yn gweithio gydag EST i ddadansoddi a datblygu cadwyn gyflenwi'r GIG er mwyn ymchwilio sut y gellid cynyddu manteision economaidd i Gymru drwy gymorth datblygu cadwyn gyflenwi'r GIG wedi'i dargedu drwy ddarpariaeth Busnes Cymru.

Mae gan yr adran ymgysylltiad rheolaidd gyda strwythur da gyda phartneriaid iechyd, sydd wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth, datblygu polisi ac ymgynghori, ac sy'n rhoi llwyfan ar gyfer cyswllt uniongyrchol ag uwch swyddogion a'r Gweinidog. Bydd hefyd yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â diwydiant, a disgwylir iddi ddarparu mentrau newydd a fydd yn cefnogi mynediad ac ymgysylltiad â diwydiant drwy gydol y sector iechyd a gofal.